

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal ym Mhencadlys y Cyngor,
Y Pafiliynau, Cwm Clydach (Siambr y Cyngor)**

Dydd Iau, 3 Mawrth, 2016 am 10.30am

Dolen gyswllt: Mrs Emma Wilkins (Rhif ffôn 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ar 1 Mawrth 2016. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443-424062 neu anfonwch e-bost i Cabinet@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1 DATGAN BUDDIANT:

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2 FFŪOEDD A THALIADAU'R CYNGOR AR GYFER 2016/17.

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n nodi'r cynnydd arfaethedig i ffioedd a thaliadau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol, 2016/17.

Tudalennau 1 - 6

3 ADRODDIAD CYFLAWNIAD Y CYNGOR AM Y TRYDYDD CHWARTER

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng-Flaen sy'n rhoi crynodeb i'r Cyngorwyr am gyflawniad y Cyngor dros naw mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon, yn ariannol a gweithredol fel ei gilydd.

Tudalennau 7 - 158

4 CYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR - BLAENORIAETHAU BUDDSODDI

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n nodi casgliadau adolygiad arall o Gronfeydd Wrth Gefn y Cyngor yn rhan o strategaeth y Gyllideb ar gyfer 2016/17, ar gais y Cabinet.

Tudalennau 159 - 174

5 YMGYSYLLTU IEUENCTID

Derbyn adroddiad Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n crynhoi'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn mewn perthynas â sefydlu Fforwm Ieuentid ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Tudalennau 175 – 182

6 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.”

7 ADOLYGIAD O STRWYTHUR UWCH REOLWYR A SWYDDI RHEOLI CYSYLLTIEDIG Y CYNGOR

Trafod adroddiad y Prif Weithredwr sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig, ac sy'n ceisio sêl bendith y Cabinet ar gyfer gweithredu trydydd cam adolygiadau arfaethedig i Strwythur Uwch Reolwyr a Swyddi Rheoli Cysylltiedig y Cyngor a fydd yn golygu cyfanswm arbedion gwerth £2m hyd yn hyn.

Tudalennau 183 – 224

8 MATERION BRYN

Ystyried unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet

